trussell.org.uk

# Mae dyfodol heb fanciau bwyd yn bosibl

**Maniffesto etholiad y Senedd 2026**



# Mae dyfodol heb fanciau bwyd yn bosibl

Roedd 660,000 o oedolion yng Nghymru yn wynebu mynd heb fwyd yn 2024.[1] Mae hyn yn golygu bod pobl wedi gorfod bwyta llai neu fynd heb brydau bwyd oherwydd diffyg arian. Cafodd 172,000 o barseli bwyd brys eu darparu gan fanciau bwyd yng nghymuned Trussell yng Nghymru yn 2024/25.[2] Mae hynny'n gynnydd dramatig o 93% o'i gymharu â degawd yn ôl. Yn y 5 mlynedd diwethaf yn unig, mae'r ddarpariaeth wedi cynyddu 26%.

Mae angen i ormod o bobl yng Nghymru ddefnyddio banc bwyd i oroesi. Mae llawer mwy o bobl yn mynd heb hanfodion oherwydd diffyg incwm heb iddynt fanteisio ar unrhyw gymorth.

**Rydych chi'n edrych ar eu, rydych chi'n edrych ar eu hincwm neu'r arian sydd ganddyn nhw ac rydych chi'n meddwl, wel, wel, does dim digon o arian i dalu am yr hyn sydd ei angen arnyn nhw. Wyddoch chi, does dim, does dim digon o arian ar gyfer bwyd.**

**Cyfweliad â rheolwr cymorth banc bwyd, Mehefin 2025**

Mae angen i bobl droi at fanciau bwyd oherwydd does ganddyn nhw ddim digon o arian ar gyfer yr hanfodion. Mae rhai rhwng swyddi, mae ganddyn nhw gyflyrau iechyd neu'n maen nhw'n gofalu am berthnasau a phlant. Mae rhai pobl mewn gwaith sy'n ansicr, yn anhygyrch, ac nad yw'n talu digon i fyw arno. Ac mae diffyg trafnidiaeth, gofal plant a thai fforddiadwy, ynghyd â rhwystrau i gael gafael ar gymorth, yn dal gormod o bobl yn ôl rhag cyfleoedd i gynyddu eu hincwm.

Mae angen i ni weld newid yn ein system nawdd cymdeithasol ac o ran ymyriadau penodol ar draws ystod o feysydd polisi gan gynnwys tai, iechyd, gofal plant a chyngor er mwyn dechrau gwrthdroi caledi difrifol yng Nghymru – a rhoi terfyn ar yr angen am fwyd brys.

Gall hyn i gyd newid, ac mae'n rhaid i hynny ddigwydd. Rydym yn gwybod beth sydd ei angen i roi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru:

1. **Gosod uchelgais i roi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd yng Nghymru**
2. **Cynnal a chynyddu mynediad at gymorth a chyngor argyfwng arian parod yn gyntaf**
3. **Defnyddio'r holl bwerau datganoledig i hybu incwm, a lleihau tlodi plant yng Nghymru**
4. **Sicrhau bod gan bawb gartref diogel**
5. **Adeiladu cymunedau cysylltiedig a chefnogol**

Dylai'r lefelau ofnadwy o galedi a mynd heb fwyd yng Nghymru fod yn ysgytwad i bob plaid wleidyddol yng Nghymru. Mae dyfodol heb yr angen am fanciau bwyd yng Nghymru yn bosibl. Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru gamu i fyny a chwarae ei rhan.

# Cydnabyddiaethau

Mae'r dystiolaeth a'r atebion polisi sydd wedi'u cynnwys yn y maniffesto hwn wedi'u llywio gan gydweithwyr banciau bwyd yng nghymuned Trussell, a thrwy weithdy cyfranogi gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o galedi.

Roedd hyn yn cynnwys timau o 13 o fanciau bwyd a fynychodd weithdai i helpu Trussell i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n ysgogi'r angen am fanciau bwyd ar draws cymunedau yng Nghymru yn well, tri thîm banc bwyd a roddodd adborth ar atebion polisi awgrymedig, a thri chyfweliad â thimau banciau bwyd i gael gwell dealltwriaeth o anghenion cyngor a chymorth pobl sydd angen defnyddio banc bwyd. Trwy un gweithdy cyfranogol gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o galedi a/neu ddefnyddio banc bwyd yng Nghymru, gwnaethom archwilio materion sy'n ymwneud â'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau cymunedol ac atebion a fyddai'n gwella mynediad at gymorth lleol.

Diolch am rannu eich profiadau a'ch straeon. Rydym yn gobeithio y gallwch chi weld effaith eich cyfraniadau trwy gydol y maniffesto.

# 1. Gosod uchelgais i roi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd yng Nghymru

**Dydw i ddim eisiau gweld banc bwyd yn [ein cymuned]. Mae'n uchelgeisiol iawn i ddweud hynny. Dydyn ni ddim eisiau un, ond y realiti yw bod pobl yn byw mewn tlodi parhaol.**

**Banc bwyd yng nghymuned Trussell yng Nghymr**[3]

Mae'r angen am fanciau bwyd yn annerbyniol o uchel yng Nghymru. Yn 2024/25, darparodd banciau bwyd yng nghymuned Trussell 172,000 o barseli bwyd brys i bobl oedd yn wynebu caledi.[4] Mae ein hymchwil yn dangos bod llawer mwy o bobl yn mynd heb hanfodion, gan gynnwys bwyd, heb droi at fanciau bwyd neu ddarparwyr bwyd elusennol eraill am gymorth.

Profodd chwarter yr oedolion yng Nghymru ansicrwydd bwyd yn 2024.[5] Mae hynny'n golygu, ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn flaenorol, eu bod wedi rhedeg allan o fwyd ac wedi methu fforddio mwy, eu bod wedi lleihau maint eu prydau neu wedi bwyta llai oherwydd nad oeddent yn gallu fforddio bwyd, neu eu bod wedi mynd heb fwyd neu wedi colli pwysau oherwydd diffyg arian.

Rydym yn gweld darpariaeth bwyd elusennol yn cael ei normaleiddio mewn cymunedau ledled Cymru. Er bod banciau bwyd, a mathau eraill o gymorth bwyd, yn gallu bod yn achubiaeth, nid dyma'r ateb. Mae angen i ni gael ein harwain gan dystiolaeth a mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n peri i bobl wynebu caledi a mynd heb fwyd yng Nghymru.

Mae nifer ac amrywiaeth y banciau bwyd, pantrïau bwyd, archfarchnadoedd cymdeithasol, clybiau bwyd fforddiadwy, oergelloedd cymunedol a llawer mwy wedi cynyddu'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond mae'r dystiolaeth yn glir nad bwyd am ddim na bwyd â chymhorthdal yw'r math gorau o gymorth argyfwng ac, yn aml, dydyn nhw ddim yn cynnwys dulliau ataliol sy'n adeiladu gwytnwch ariannol yn ein cymunedau.

Rydym wedi gweld llawer o bleidiau gwleidyddol yn mynegi cefnogaeth i fynd i'r afael â'r angen am fanciau bwyd neu'n cydnabod y gwaith gwerthfawr y mae staff a

gwirfoddolwyr banciau bwyd yn ei wneud. Mae'n rhaid i ni fynd ymhellach. Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru wneud ymrwymiad penodol i ysgogi'r newid sydd ei angen i sicrhau bod rhoi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd yn realiti.

Er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn ystyrlon, dylai Llywodraeth Cymru hefyd nodi sut y bydd y dull gweithredu a fabwysiedir ganddi nid yn unig yn rhoi terfyn ar fynd heb fwyd heddiw, ond am byth. Ni all cymorth bwyd elusennol gymryd lle camau gweithredu i fynd i'r afael â'r ffactorau craidd sy'n ysgogi caledi ac yn peri i bobl fynd heb fwyd.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru:

- Gosod uchelgais glir i roi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd yng Nghymru, a datblygu cynllun gweithredu trawslywodraethol a fframwaith monitro i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n ysgogi caledi ac yn peri i bobl fynd heb fwyd.
- Sicrhau bod cyllid parhaus i awdurdodau lleol a phartneriaethau bwyd sy'n anelu at leihau 'tlodi bwyd' yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â ffactorau lleol sy'n ysgogi'r angen am fwyd brys. Dylai atebion lleol gael eu cyd-gynhyrchu gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o galedi.



# 2. Cynnal a chynyddu mynediad at gymorth a chyngor argyfwng arian parod yn gyntaf

**Os ydw i'n rhedeg allan o arian neu'n methu prynu pethau hanfodol fel pethau i'r babi, rwy'n llwyddo i'w cael nhw o'r banc bwyd.**

**Dyn, 18-54 oed, Cymru, fel rhan o ymchwil Mynd heb fwyd yng Nghymru 2025.**[6]

Yn 2024, dim ond £89 yr wythnos oedd incwm wythnosol cyfartalog pobl a gyfeiriwyd at fanciau bwyd yng Nghymru.[7] I lawer o bobl, roedd hyn yn golygu eu bod yn aml yn rhedeg allan o arian yn gynnar yn y mis, gan eu gadael heb fawr ddim i fyw arno.

Dylai cymorth argyfwng fod yno i helpu pobl ar yr incwm isaf gyda chostau annisgwyl fel yr angen i brynu popty neu wely newydd yn lle un sydd wedi torri, neu i ymdopi â digwyddiadau bywyd y gall fod baich ariannol mawr ynghlwm wrthynt fel profedigaeth, colli swydd neu symud tŷ. Mae angen cymorth argyfwng i helpu pobl nad oes ganddynt arian wrth gefn i ymdopi â'r digwyddiadau a'r argyfyngau annisgwyl hyn.

Cynlluniwyd y Gronfa Cymorth Dewisol (y Gronfa) i ddarparu cymorth i bobl sy'n wynebu argyfwng ariannol – rhywbeth a ddylai sicrhau nad oes angen i bobl orfod troi at fanc bwyd. Gall y cymorth hwn atal argyfwng tymor byr rhag troi'n galedi tymor hir. Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos bod y cymorth a ddarperir gan y Gronfa yn cael ei danddefnyddio i raddau helaeth gan y bobl y bwriedir iddi eu cefnogi. Dim ond un o bob pedwar o'r bobl a gyfeiriwyd at fanciau bwyd yng nghymuned Trussell yng Nghymru oedd wedi cael cymorth gan y Gronfa yn y tri mis diwethaf.[8]

Mae bwyd brys y bwriedir iddo fod yn ateb dros dro yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth i bobl yn y tymor hir, dim ond i gadw deupen llinyn ynghyd. Mae hyn yn anghynaliadwy ac yn aneffeithiol wrth ddiwallu anghenion pawb sy'n wynebu caledi ac yn mynd heb fwyd yng Nghymru.

Mae cymuned o fanciau bwyd Trussell wedi adeiladu tystiolaeth gadarn o'r effaith gref y mae atgyfeiriadau cynnes yn ei chael a'r cysylltiadau agos â chyngor ehangach i fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol dros fod mewn argyfwng ariannol. Mae gallu cyfeirio pobl sydd mewn argyfwng ariannol at gyngor ar faterion ariannol yn arwain at ganlyniadau ariannol cadarnhaol sylweddol.[9] Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried y dysgu hwn er mwyn sicrhau bod pobl sy'n gwneud cais am y Gronfa yn cael eu cysylltu'n gyson

ac yn rhagweithiol â gwasanaethau cyngor a chymorth lleol. Rhaid i'r cymorth hwn fod yn wirfoddol. Yn y modd hwn, byddai'r Gronfa yn dod yn fan cychwyn i bobl adeiladu gwytnwch ariannol tymor hwy, yn hytrach na'n bwynt terfynol o gael help unwaith yn unig.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru:

- Cadw cymorth argyfwng arian parod yn gyntaf trwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, gan sicrhau bod digon o gymorth i bobl dalu am yr hanfodion a'i fod yn cynyddu yn unol â chwyddiant o leiaf.
- Sicrhau bod pawb sy'n gwneud cais am y Gronfa Cymorth Dewisol yn cael cynnig cyngor a chymorth wedi'u hariannu.



# 3. Defnyddio'r holl bwerau a'r dylanwad i hybu incwm a lleihau tlodi plant

**Roeddwn i wedi cyrraedd pen fy nhennyn yn emosiynol... Cafodd y cerdyn roeddwn i'n ei ddefnyddio i brynu'r esgidiau ei wrthod... Roedd yn rhaid iddo fynd i'r ysgol mewn hen esgidiau tra fy mod i'n aros i'r arian hwnnw ddod i mewn.**

**Menyw, 31-54 oed, Cymru, fel rhan o ymchwil Mynd heb fwyd yng Nghymru 2025.**[10]

Mae lefel yr angen am fanciau bwyd yn cael ei ysgogi'n bennaf gan incwm isel. I ormod o bobl, dydy eu hincwm ddim yn ddigon i dalu costau hanfodol. Mae pobl sydd wedi'u cyfeirio at fanciau bwyd yng Nghymru wedi mynd heb hanfodion yn rheolaidd yn y cyfnod cyn iddynt droi at fanc bwyd am gymorth. Roedd o leiaf un diwrnod wedi bod pan na wnaeth y mwyafrif (84%) fwyta o gwbl, neu pan gawsant un pryd o fwyd yn unig, yn y mis cyn iddynt gael cymorth.[11]

Y ffactor mwyaf a mwyaf uniongyrchol sy'n ysgogi incwm isel yw problemau gyda dyluniad y system nawdd cymdeithasol a'r ffordd y caiff ei darparu, sy'n gadael llawer heb y gwytnwch ariannol i ymdopi â digwyddiadau bywyd. Er bod llawer o'r ysgogiadau nawdd cymdeithasol allweddol i gynyddu incwm yn nwylo Llywodraeth y DU, gall



Llywodraeth nesaf Cymru ddefnyddio'r holl bwerau datganoledig sydd ar gael i sicrhau bod incwm yn talu costau hanfodol, a rhaid iddi wneud hynny. Byddai ymyrraeth benodol yng Nghymru, y tu hwnt i bolisi nawdd cymdeithasol a gadwyd yn ôl, yn helpu mwy o deuluoedd i fforddio costau hanfodol.

Mae rhai grwpiau yn wynebu risg uwch y bydd angen iddynt ddefnyddio banc bwyd – gan gynnwys pobl anabl, teuluoedd â phlant, a phobl â chyfrifoldebau gofalu. Mae'r grwpiau hyn hefyd yn debygol o wynebu costau uwch na ellir eu hosgoi, fel costau teithio, cyfleustodau, gofal plant a bwyd, sy'n debygol o fod yn ffactorau sy'n peri bod y grwpiau hyn yn cael eu gweld yn aml iawn mewn banciau bwyd.

Roedd y mwyafrif (62%) o'r cymorth a ddarparwyd gan fanciau bwyd yng nghymuned Trussell yng Nghymru yn 2024/25 ar gyfer teuluoedd â phlant. Darparwyd lleiafrif sylweddol (28%) o barseli i deuluoedd â thri phlentyn neu fwy.[12]

Mae gofal plant yn gost anochel i deuluoedd â phlant ifanc, er mwyn galluogi rhieni a gofalwyr i weithio'r oriau maen nhw eu heisiau a rhoi hwb i incwm y teulu. Ond mae'r dirwedd gofal plant yng Nghymru yn cael ei nodweddu gan gostau uchel a chynyddol, help ariannol cyfyngedig a loteri cod post o ran cymorth. Mae costau gofal plant yn uchel yng Nghymru, o gymharu â gweddill y DU.[13] Mae hyn yn cyfyngu ar allu pobl i gydbwyso cyfrifoldebau gofalu ag ymrwymiadau gwaith, a mynediad at gyfleoedd gwaith.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fod yn greadigol ac yn uchelgeisiol wrth ddefnyddio ei holl bwerau datganoledig i gynyddu incwm, a darparu ymyriadau penodol i bobl sy'n wynebu costau uchel na ellir eu hosgoi – yn y lle cyntaf, i deuluoedd â phlant.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru:

- Cwmpasu opsiynau i weithredu 'Taliad Plant Cymru', gyda bwriad clir o gyflwyno'r cynllun ledled Cymru. Gan ddysgu o'r hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban, dylai'r polisi hwn helpu i sicrhau bod teuluoedd â phlant yn gallu fforddio'r hanfodion.
- Cynyddu mynediad at Brydau Ysgol Am Ddim i blant y mae eu teuluoedd yn cael Credyd Cynhwysol a phob plentyn heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF) o aelwydydd ar lefelau incwm sy'n debyg i Gredyd Cynhwysol neu'n is na hynny.
- Rhoi hwb i gymorth gofal plant i deuluoedd â phlant ifanc sydd ar incwm isel a rhoi'r gorau i'r 'loteri cod post' o ran cymorth gofal plant. Rydym yn cefnogi'r galwadau gan Sefydliad Bevan ac eraill i sicrhau bod gofal plant rhan-amser o ansawdd da yn cael ei ariannu i bob plentyn dan 4 oed. Dylai'r cynnig hwn fod ar gael i bob rhiant, ni waeth beth fo'i statws gwaith.[14]
- Galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod nawdd cymdeithasol yn gweithio i bobl yng Nghymru, gan gynnwys cael gwared ar y terfyn dau blentyn a chymryd camau tuag at gynyddu nawdd cymdeithasol i lefelau Gwarant Hanfodion.

# 4. Sicrhau bod gan bawb gartref diogel

**Ac mae e' wir yn peri gofid i fi, nes bod gennych chi do parhaol dros eich pen, dydw i ddim yn credu y gallwch chi symud ymlaen gydag unrhyw beth.**

**Cyfweliad â chynghorydd dyledion banc bwyd, Gorffennaf 2025.**

Cartref diogel a fforddiadwy yw'r sylfaen sydd ei angen ar bob un ohonom i adeiladu ein bywydau o'i gwmpas. Ond mae banciau bwyd yng nghymuned Trussell yng Nghymru yn dweud wrthym mai tai yw un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu pobl y mae angen eu cymorth arnynt. I ormod o bobl, mae problemau gyda thai yn arwain at ddigartrefedd. Roedd mwy na thraean (38%) o'r bobl a gyfeiriwyd at fanciau bwyd yng nghymuned Trussell wedi profi rhyw fath o ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[15]

Felly, mae gweithredu gan Lywodraeth nesaf Cymru i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gartref fforddiadwy a diogel yn hanfodol os ydym am roi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd.

Mae ansawdd, diogelwch ac argaeledd llety dros dro yng Nghymru yn broblem sylweddol. Mae un banc bwyd yng nghymuned Trussell yng ngogledd Cymru wedi ymgyrchu'n llwyddiannus yn lleol i wella ansawdd llety dros dro lleol, oherwydd roedd gormod o bobl heb fynediad at gyfleusterau coginio, lleoedd i storio bwyd, cyfleusterau golchi dillad na Wi-Fi. Mae'r rhain yn hanfodol i bobl gynnal neu adeiladu cymuned, i weithio a chael mynediad at wasanaethau lleol.

Mae hyn yn adlewyrchu profiad ehangach; mae banciau bwyd ledled Cymru yn darparu 'pecynnau oer' a 'phecynnau tegell' o fwyd brys yn rheolaidd i bobl nad oes ganddynt fynediad at gyfleusterau coginio digonol, y bydd llawer ohonynt mewn llety dros dro. Mae'n hanfodol bod llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru yn gwella ansawdd llety dros dro; fodd bynnag, ni ddylai hyn dynnu sylw oddi wrth gamau brys i sicrhau mai ateb tymor byr yw llety dros dro.

Yn olaf, nid yw rhentu preifat yn darparu'r diogelwch sydd ei angen ar bobl yng Nghymru. Mae mwyfwy o rentwyr preifat wedi wynebu bwlch rhwng y cymorth maent yn ei gael i dalu eu costau tai a'u rhenti, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt dorri'n ôl ar hanfodion eraill. Mae annigonolrwydd y cymorth ar gyfer costau tai yn y sector rhentu preifat yn ffordd hanfodol y mae'r system nawdd cymdeithasol yn ysgogi caledi ac yn peri i bobl fynd heb fwyd.

Mae timau banciau bwyd wedi dweud wrthym na allai llawer o bobl maen nhw'n eu cefnogi fforddio'r sector rhent preifat nac ymdopi yn y sector hwnnw, ac wedi sôn am y rhyddhad a'r diogelwch y mae pobl yn ei deimlo pan allant symud i gartref cymdeithasol. Felly, rhaid i gynyddu mynediad at dai cymdeithasol fod yn un o brif amcanion Llywodraeth nesaf Cymru.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru:

- Gwella ansawdd a diogelwch cyfleusterau hanfodol mewn llety dros dro a'r mynediad a geir iddynt, gyda gwell canllawiau a deddfwriaeth, ac adroddiadau blynyddol ar y defnydd o lety dros dro a'i gyflwr.
- Gosod cynllun clir i gynyddu nifer y cartrefi cymdeithasol yng Nghymru yn sylweddol. Rydym yn cefnogi'r galwadau gan Shelter Cymru ac eraill am fwy o gartrefi cymdeithasol ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod llai o bobl mewn llety dros dro am gyfnodau hir.
- Galw ar Lywodraeth y DU i ddadrewi'r Lwfans Tai Lleol.



# 5. Creu cymunedau cysylltiedig a chefnogol

**Does neb yn dweud y pethau hyn wrthych chi. Hyd yn oed wrth dyfu i fyny, roeddwn i'n gwybod am fudd-daliadau, ond oherwydd y stigma o'i gwmpas, dydych chi ddim eisiau edrych i mewn iddo ymhellach. Nawr, fel oedolyn sydd angen yr help, cyn gynted ag y mae'n dod i hynny, rydych chi fel, 'Beth yw hwnna? Ches i byth gwybod am hyn. Dydy hwn byth wedi cael ei awgrymu i fi.' Mae fel petai'n rhaid i chi weithio popeth allan ar eich pen eich hun.**

**Menyw, 18-30 oed, Cymru, fel rhan o ymchwil Mynd heb fwyd yng Nghymru 2025.**[16]

Mae profi caledi a mynd heb fwyd yn cael effaith enfawr ar fywydau pobl o ddydd i ddydd ac mae'n gysylltiedig â chanlyniadau iechyd ac addysgol gwaeth. Eto i hyd, mae gormod o bobl nad ydynt yn cael cyngor a chymorth cyn bod angen iddynt ddefnyddio banc bwyd.[17]

Mae banciau bwyd a phobl sydd â phrofiad bywyd yn dweud wrthym ei bod yn gyffredin ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau lleol a chysylltu â nhw – er enghraifft cyngor ar ddyledion a budd-daliadau, cymorth tai a chymorth iechyd meddwl. Mae profiadau pobl sydd angen mynediad at fwyd brys yn amrywio ac, yn aml, mae angen cymorth ychwanegol ar bobl i lywio gwasanaethau yn y gymuned. Mae'r profiadau hyn yn creu rhwystrau pellach, gan gynnwys llawer o enghreifftiau lle mae pobl yn gorfod gofyn am gymorth ac ailadrodd eu stori sawl gwaith, yn cael eu troi i ffwrdd ac yn cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill. Mae hyn yn aml yn rhwystredig, yn ddryslyd, yn achosi straen ac yn emosiynol iawn.

Dangoswyd bod gwasanaethau cyngor a chymorth a ddarperir gan fanciau bwyd yng nghymuned Trussell yn helpu i leddfu caledi ariannol ac yn atal pobl rhag gorfod defnyddio banc bwyd yn y dyfodol agos.[18]Mae angen i'r nod o sicrhau bod darparwyr cyngor yn cael digon o adnoddau ac arian i ddarparu cyngor a mynediad at gymorth ehangach sy'n blaenoriaethu pobl sy'n wynebu caledi difrifol fod yn un o bileri allweddol unrhyw strategaeth i leihau'r angen am fanciau bwyd.

Yn ogystal, roedd diffyg trafnidiaeth fforddiadwy, hygyrch yn fater allweddol a adroddwyd gan fanciau bwyd a phobl â phrofiad bywyd o galedi sy'n rhwystro pobl rhag gallu cymryd rhan lawn yn eu cymuned, cael mynediad at wasanaethau a manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth. Nid oes gan bron i chwarter poblogaeth Cymru (23%) fynediad at

gar neu fan, ac nid oes gan rai pobl unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal leol.[19] Heb opsiynau trafnidiaeth hyfyw a fforddiadwy, mae perygl na fydd pobl yn gallu manteisio ar gyfleoedd swyddi na chael mynediad at wasanaethau hanfodol a chysylltiad cymdeithasol.

Er bod cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus consesiynol yng Nghymru ar gyfer pobl hŷn, pobl anabl a phobl ifanc, mae hyn yn gadael llawer o bobl yn wynebu caledi heb fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus fwy fforddiadwy.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru:

- Cefnogi a chynyddu cyllid i sicrhau bod gwasanaethau cyngor yn cyrraedd pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o wynebu caledi a mynd heb fwyd, gan ganolbwyntio ar gyngor manwl, penodol o ansawdd uchel.
- Ymgorffori Siarter Budd-daliadau Cymru ledled Cymru, gan sicrhau bod pob awdurdod lleol yn blaenoriaethu cynyddu a symleiddio mynediad at fudd-daliadau Cymru, a darparu 'System Budd-daliadau Cymru dosturiol sy'n seiliedig ar barch at hawliau dynol sylfaenol a chydraddoldeb'.
- Sicrhau bod pobl sydd â phrofiad bywyd o galedi difrifol, a all gael eu heithrio rhag gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus oherwydd costau uchel, yn llywio'r penderfyniadau a wneir o ran llwybrau, hygyrchedd a theithio fforddiadwy.



# Casgliad

Wrth i ni nesáu at etholiadau'r Senedd yn 2026, rhaid i bob plaid wleidyddol nodi ei huchelgais i leihau'r angen am fanciau bwyd yng Nghymru.

Mae gan Lywodraeth nesaf Cymru gyfrifoldeb moesol ac economaidd i sicrhau bod llai o bobl yn wynebu caledi difrifol yn ein cymdeithas. Mae'r methiant i fynd i'r afael â chaledi a mynd heb fwyd yn golygu bod Cymru'n gwario £560 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar wasanaethau cyhoeddus fel y GIG, ysgolion a gofal cymdeithasol plant.[20] At ei gilydd, gallai cyllid cyhoeddus a'r economi yng Nghymru elwa o £3.6 biliwn bob blwyddyn pe bai pobl yn cael eu hamddiffyn rhag caledi a mynd heb fwyd.[21]

Oherwydd ein bod ni'n gwybod beth sy'n gwthio pobl i fanciau bwyd, rydym yn gwybod y camau sydd eu hangen i roi terfyn ar fynd heb fwyd yng Nghymru, am byth. Mae ein maniffesto yn nodi'r hyn sydd ei angen i helpu i wrthdroi lefelau caledi difrifol yng Nghymru, ar draws ystod o feysydd polisi.

Rhaid i bob plaid wleidyddol nodi ei chynlluniau i fynd i'r afael â chaledi difrifol yn ein cymunedau. Mae'n bryd bod yn uchelgeisiol ynglŷn â gweithio tuag at Gymru lle nad oes angen banciau bwyd.

# References

1 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru.

2 Trussell, Mai 2025, Ystadegau diwedd blwyddyn 2024/25.

3 Trussell, Mai 2025, Ystadegau diwedd blwyddyn 2024/25.

4 Trussell, Mai 2025, Ystadegau diwedd blwyddyn 2024/25.

5 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru.

6 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru, t52.

7 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru, t72.

8 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru.

9 Canolfan Ymchwil Cyllid Personol, Prifysgol Bryste, Hydref 2024, Evaluating the advice and support services provided through food banks. **https://cms.trussell.org.uk/sites/default/files/2024-10/Evaluating%20the%20advice%20and%20support%20services%20provided%20through%20food%20banks_FINAL_30092024%20%281%29.pdf**

10 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru, t52.

11 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru, t72.

12 Trussell, Mai 2025, Ystadegau diwedd blwyddyn 2024/25.

13 Coram, 2025, Childcare survey 2025. **https://www.coram.org.uk/wp-content/uploads/2025/03/ChildcareSurvey2025-1.pdf**

14 Sefydliad Bevan, Awst 2025, Lleihau tlodi trwy wella darpariaeth gofal plant. **https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2025/08/Manifesto-briefing-Cymraeg.pdf**

15 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru, t57.

16 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru, t109.

17 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru, t112.

18 Canolfan Ymchwil Cyllid Personol, Prifysgol Bryste, Hydref 2024, Evaluating the advice and support services provided through food banks. **https://cms.trussell.org.uk/sites/default/files/2024-10/Evaluating%20the%20advice%20and%20support%20services%20provided%20through%20food%20banks_FINAL_30092024%20%281%29.pdf**

19 Trussell, Medi 2025, Mynd heb fwyd yng Nghymru, t21.

20 Trussell, Ebrill 2025, Cost mynd heb fwyd a chaledi: Prif ganfyddiadau ar gyfer Cymru.

21 Trussell, Ebrill 2025, Cost mynd heb fwyd a chaledi: Prif ganfyddiadau ar gyfer Cymru.

Trussell
Ending hunger together

Unit 9, Ashfield Trading Estate,
Ashfield Road, Salisbury SP2 7HL

enquiries@trussell.org.uk

trussell.org.uk

TrussellUK

Ffotograffiaeth: ©Trussell images / Hannah Maule-ffinch / Martin Phelps / Peter Schiazza, Chris Lacey, Martin Phelps

Trussell yw enw gweithredol Ymddiriedolaeth Trussell, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1110522) a'r Alban (SC044246). Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (5434524).

recycle